COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**27 Awst 2020**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymateb i alwad am gymorth: Rheoli cyswllt yr heddlu drwy drin galwadau ac ystafelloedd rheoli yn 2018/19**

Yr wyf yn croesawu'r adroddiad sy'n nodi'n gywir y galw sylweddol y mae ystafelloedd cyfathrebu'r Heddlu'n wynebu.

Fel y mynegwyd yn fy ymateb i'r adroddiad Cyflwr Plismona Blynyddol 2019, mae bodlonrwydd y cyhoedd o ran pa mor rhwydd ydyw i gysylltu â Heddlu Dyfed-Powys yn uchel, fel y mae eu gallu presennol i ymateb i alwadau gan y cyhoedd am wasanaeth mewn amser rhesymol. Fodd bynnag, mae galwadau gan y cyhoedd yn arwain at ofynion mwy cymhleth yn cael eu gosod ar heddluoedd. Yn hwyr yn 2019, cyhoeddais adroddiad yn nodi canfyddiadau fy swyddfa o ran cyswllt cychwynnol Heddlu Dyfed-Powys â'r cyhoedd. Nodais nad oedd yr Heddlu'n medru cynnal ei strategaeth bresennol o ran cyswllt â'r cyhoedd oherwydd bwysau galwadau cynyddol i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Yr wyf yn parhau i gefnogi gwaith yr Heddlu i weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu a hyrwyddo'r ymgyrch #galwngywir ymhellach.

Mae gwaith dadansoddol a gyflawnwyd gan yr Heddlu dros y blynyddoedd wedi dangos yr her o ddarparu ymateb brys effeithiol a theg ar draws ardal heddlu llai poblog sy'n wledig ei natur i raddau helaeth. Yr wyf yn parhau i atgoffa'r Heddlu bod angen i'w blaenoriaethau presennol fod yn dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a bod yn rhaid eu cyfathrebu'n glir i'n cymunedau. Mae'n rhaid i'r negeseuon hyn gael cefnogaeth yr Arolygiaeth a'r Swyddfa Gartref os ydym am gynnal hyder y cyhoedd.

O'r herwydd, mae fy nhîm a minnau'n gweithio'n agos â Heddlu Dyfed-Powys ar eu dyheadau i ddiwygio'r gwasanaeth yn dilyn y pandemig Coronafeirws gyda strategaeth cyswllt a hyder newydd. Heb os, bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer yr ardal.